**Rebecca Evans MS/AS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Kathryn Bishop
Cadeirydd - Awdurdod Cyllid Cymru

Gorffennaf 2020

**CYLCH GWAITH AWDURDOD CYLLID CYMRU**

Yn gyntaf, hoffwn longyfarch Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ar flwyddyn lwyddiannus arall yn casglu a rheoli'r ddwy dreth ddatganoledig – treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi.

Mae cyflawni cylch gwaith ACC gymaint yn fwy nodedig o ystyried yr heriau ychwanegol a wynebwyd o ganlyniad i'r llifogydd a gafwyd yn ein prif swyddfa ym mis Chwefror, ac yna ymdrin ag effaith pandemig y coronafeirws ar ein gweithrediadau.

Roedd y Llythyr Cylch Gwaith a gyhoeddwyd y llynedd (2 Ebrill 2019), yn amlinellu fy nisgwyliadau ar gyfer ACC dros gyfnod cynllunio o dair blynedd o 2019-20 i 2021-22.

Yn y Llythyr Cylch Gwaith, cyfeiriwyd hefyd at ba mor bwysig ydyw i ACC gadw rhywfaint o hyblygrwydd fel sefydliad gymharol newydd, ac awgrymwyd y byddai'n edrych eto ar y blaenoriaethau hyn, ac o bosibl yn ysgrifennu ymhellach amdanynt yn flynyddol.

Mae pandemig y coronafeirws wedi creu sefyllfa eithriadol i bob un ohonom. Drwy ei systemau digidol, mae ACC wedi sicrhau ei fod wedi gallu parhau i ddarparu ei wasanaethau allweddol. Yn ogystal, gan fod angen ymateb i effaith y pandemig, roedd yn rhaid ail-flaenoriaethu ac ad-drefnu adnoddau o fewn ACC ac ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r cymorth y mae ACC wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru ar yr adeg hon, a'i gynnig i barhau i ddarparu cymorth, wedi cael ei groesawu'n fawr. Mae'n bwysig cydnabod bod hyn wedi arwain at adleoli nifer cyfyngedig o staff dros dro i gefnogi ymateb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r pandemig. Gan ystyried yr angen i symud yn gyflym ac yn hyblyg, mae'r trefniadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith gyda rheolaeth mwy cyfyngedig nag y byddai wedi bod fel arfer. Felly, mae'n bwysig cydnabod drwy'r llythyr cylch gwaith hwn, bod adnoddau sy'n cael eu dyrannu i gyllideb ACC yn cael eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o ddarparu ymatebion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sefyllfa COVID-19, ac mae'n bosibl y bydd y hyn yn parhau am gyfnod sylweddol o'r flwyddyn ariannol hon. Rwy'n sylweddoli hefyd fod y cymorth hwn wedi cael ei ddarparu heb unrhyw adnoddau

ychwanegol, ac felly bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran cylch gwaith a blaenoriaethau ACC yn y misoedd nesaf.

Mewn perthynas â chyllideb ACC ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, rwyf wedi cytuno ar gyllideb refeniw gwerth £6.196m gyda gwariant ychwanegol, hyd at uchafswm o £300,000 i gael ei reoli fel pwysau yn ystod y flwyddyn. Rwyf hefyd wedi cytuno ar gyllideb gyfalaf o £170,000.

- **Penodi aelodau anweithredol**

Rwy'n ddiolchgar am y gwaith gwerthfawr rydych chi a phob un o'r aelodau anweithredol wedi'i wneud yn ystod eich cyfnod yn y swydd.

Rwy'n hynod o falch eich bod wedi cytuno i ymestyn eich cyfnod fel Cadeirydd ACC am ddwy flynedd arall.  Rydych yn parhau i chwarae rôl werthfawr yn darparu arweinyddiaeth a chefnogaeth wrth i ACC barhau i ddatblygu. Rwyf hefyd wedi gwerthfawrogi eich rhan yn natblygiad dogfen Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru: Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar Gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.

Hefyd, mae'r ffaith bod Dyfed Edwards a Jocelyn Davies wedi cytuno i ymestyn eu penodiadau am ddwy flynedd arall yn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu parhau i weithredu'n effeithiol dros y flwyddyn nesaf.

- **'Ailosod' Cyllideb ACC**

Fel y gwyddoch, cytunodd Gweinidogion ar gyllideb tair blynedd ar gyfer ACC ym mis Tachwedd 2017.  Roedd y gyllideb hon yn seiliedig ar amcangyfrifon a thybiaethau cyn i ACC ddechrau gweithredu.

Wrth symud ymlaen, bydd yn bwysig i ACC weithio mewn partneriaeth gyda fy swyddogion i 'ailosod' cynllun y gyllideb, fel bod penderfyniadau ar gyfanswm cyllideb y sefydliad yn y dyfodol (refeniw a chyfalaf) yn seiliedig ar brofiad ac anghenion gweithredol sydd wedi cael eu hystyried. Bydd swyddogion yn sicrhau bod yr wybodaeth a'r dyddiadau angenrheidiol yn cael eu darparu fel ei fod yn cyd-fynd ag ymarfer cynllunio cyllideb 2021-22 Llywodraeth Cymru.

- **Amcanion Dylunio a Data**

Roedd y llythyr cylch gwaith y llynedd yn cydnabod y manteision posibl a allai ddeillio o amcanion ACC, sef:

- Elwa i'r eithaf ar asedau data, gan gynnwys gwaith gyda phartneriaid sy'n dal data am drethdalwyr Cymru i wella'r ffordd y mae'r wybodaeth honno yn cael ei rhannu a'i dadansoddi;

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn ehangach i gefnogi, lle bo hynny'n briodol, y broses o ddylunio gwasanaethau refeniw cenedlaethol Cymru.

Rwy'n croesawu'r cydweithio rydw i wedi'i weld hyd yma rhwng ACC, Trysorlys Cymru a Llywodraeth Cymru yn ehangach; yn dwyn ynghyd ystod eang o sgiliau a phrofiad i ddylunio gwasanaethau treth a refeniw ar gyfer Cymru. Mae'n bwysig bod y cydweithio hwn yn parhau wrth i Lywodraeth Cymru barhau i edrych ar ystod o feysydd i gryfhau datganoli cyllidol ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys y gwaith ar ddatblygu ffordd strategol o weithredu cyfraddau treth, datganoli y dreth ar dir gwag o bosibl, datblygu trethi amgylcheddol yn ymwneud â phlastig untro er enghraifft, a'r opsiynau yn ymwneud â'r ardoll gofal cymdeithasol. Rwyf hefyd yn awyddus i ACC fod yn rhan o'r rhaglen waith i ddatblygu trethi lleol fel rhan o'r gwaith diwygio ariannol o fewn llywodraeth leol yn y tymor hwy.

Rwy'n parhau i gefnogi nod ACC i sicrhau ein bod yn cael y gwerth mwyaf posibl o'r data a gedwir ar drethdalwyr Cymru ac yn croesawu'r bwriad, ar y cyd â chydweithwyr o fewn Llywodraeth Cymru, i edrych ar bwerau o fewn y Ddeddf Economi Ddigidol i weld sut y gall y data a gedwir gan ACC helpu sefydliadau partner. Ystyriaf mai dyma ddechrau'r daith i wella'r ffordd y caiff data am drethdalwyr eu rhannu a'u dadansoddi er budd pobl Cymru. Mae gan ACC rôl allweddol yn hyn.

- **Gwarediadau heb eu hawdurdodi**

Rwy'n ymwybodol eich bod wedi gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i sefydlu dull partneriaeth i godi treth ar warediadau gwastraff heb eu hawdurdodi. Rwy'n croesawu'r gwaith cynnar rydych wedi'i wneud i nodi'r ffordd orau y gall pwerau treth ACC ategu'r camau gan Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â throseddau gwastraff. Fel y nodais y llynedd, mae'n bwysig cael ffocws ar achosion sy'n mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol ac sy’n cael effaith niweidiol ar fusnesau tirlenwi a rheoli gwastraff cyfreithlon.

Edrychaf ymlaen at weld eich cynnydd yn y maes hwn yn parhau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Yn arbennig, byddwch yn ymgymryd â gwaith i ddechrau profi eich pwerau treth. Bydd y cam profi hwn yn eich galluogi chi i adeiladu darlun mwy clir o'r materion ymarferol a chyfreithiol cysylltiedig, a'r adnoddau a ddefnyddir wrth wneud y gwaith hwn. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cyfrannu at ddatblygu dull strategol yn y tymor hwy o godi treth ar warediadau heb eu hawdurdodi ac achos busnes cysylltiedig.

Mae'n amlwg bod eich partneriaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yn allweddol i lwyddiant y gwaith. Mae'n bleser gen i felly weld bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi cael ei gytuno, gan ymestyn dirprwyaeth rhai swyddogaethau trethi gwarediadau tirlenwi gan ACC i Gyfoeth Naturiol Cymru am dair blynedd arall. Yn ogystal, rwy'n croesawu eich bwriad i

barhau i edrych ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol a'r diwydiant i fynd i'r afael â dympio anghyfreithiol.

Bydd gennym Lywodraeth newydd gyda set newydd o flaenoriaethau a rhaglenni ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Fel y nodir yn Adroddiad 'Delivering Together', y cynlluniau presennol yw symud tuag at gylchoedd gwaith y tymor llywodraethu ar gyfer holl Gyrff Hyd Braich ac Adrannau Anweinidogol yng Nghymru a fydd yn darparu gweledigaeth strategol, lefel uchel er mwyn cyflawni amcanion y Llywodraeth.  Bydd fy swyddogion yn ymgysylltu ag ACC i edrych ar sut y mae Cynlluniau Corfforaethol dilynol yr Awdurdod yn berthnasol i'r fframwaith newydd hwn.

Yn gywir

**Rebecca Evans AM/AC**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

*CC: Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru; Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru; Prif Weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru*